# Poster elusen - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad
Gweithgaredd creadigol, i roi egwyddorion marchnata sylfaenol ar waith, yng nghyd-destun codi ymwybyddiaeth o achos elusennol.

## Paratoi
Dewiswch elusen briodol a fydd o ddiddordeb i'r dysgwyr.

Efallai yr hoffech ddewis elusen:

- Sy'n gweithredu'n lleol
- Gall y dosbarth ymweld â hi i weld ei gwaith
- Sydd â gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran i hwyluso ymgysylltiad parhaus e.e. cylchgrawn misol, tudalen we i blant, digwyddiadau teuluol ac ati.
- A all ddangos posteri'r dysgwr

Paratowch neu gofynnwch am wybodaeth sy'n briodol i'r oedran am yr elusen i ymdrin â'r cwestiynau isod.

## Adnoddau
Copi caled neu ddigidol o wybodaeth am yr elusen

Papur A3 (neu fwy)

Pennau neu bensiliau lliw

## Geirfa
Elusen, rhoddi, codi arian, gwirfoddoli, ymwybyddiaeth, hysbysebu, annog/perswadio

**Cyflwyniad/cyd-destun**

Pan fo'n bosibl ac yn briodol, trefnwch ymweliad dosbarth â'r elusen, i archwilio natur a gwerth ei gwaith. Fel arall, cyflwynwch yr elusen trwy ddeunyddiau digidol neu wedi'u hargraffu a thrafodaeth ddosbarth. Dylai'r wybodaeth neu'r ymweliad gynnwys:

- Enw'r elusen
- Beth mae'n ei wneud
- Lle mae'n gweithio
- Pam mae'n bwysig
- Tynnwch sylw at y ffyrdd y gall pobl helpu elusennau:
    - Gwirfoddoli
    - Codi arian
    - Gwneud rhoddion
    - Codi ymwybyddiaeth

**Amlinellwch dasg y gweithgaredd**

Mewn parau, gwnewch boster, i ddweud wrth bobl am yr elusen a'u hannog i helpu mewn un neu fwy o'r ffyrdd yr ydym ni wedi siarad amdanyn nhw (gweler uchod). Dylai'r poster ddefnyddio geiriau, lluniau neu'r ddau, i ddweud wrth bobl am beth mae'r elusen yn ei wneud a pham mae'n bwysig.

| | |
|---|---|
| Amser 5–10 munud | **Beth i'w gynnwys**<br>Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhestr o'r pethau pwysig y dylai eu poster eu cynnwys e.e. enw'r elusen, beth mae'n ei wneud, pam mae angen eich help chi, sut gallwch chi helpu, pam dylech chi helpu. |
| Amser 30–40 munud | **Dylunio'r poster**<br>Mewn parau, gadewch i'r dysgwyr lunio'u poster ar y cyd. |
| Amser 10–20 munud | **Cyflwyno ac adolygu**<br>Gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno eu posteri i'r dosbarth, gan ddangos sut maen nhw wedi dewis adlewyrchu'r pethau pwysig roedden nhw wedi'u rhestru (e.e. lluniau, geiriau, maint, lliwiau). Gofynnwch i'r dosbarth roi adborth ar yr hyn maen nhw'n ei hoffi am y posteri, a pham bydden nhw'n gwneud iddyn nhw eisiau helpu. |
| Amser 5–30 munud | **Casgliad**<br>Cymharwch eu gweithgaredd poster â hysbysebu.<br>Fe wnaethom ni greu poster i annog pobl i gefnogi elusen. Weithiau mae posteri'n cael eu defnyddio i annog pobl i brynu rhywbeth. Gelwir hyn yn hysbysebu. Mae pobl yn meddwl yn galed iawn am sut i ddefnyddio posteri i annog neu berswadio pobl i brynu eu car/diod/tegan/llyfr/esgidiau/ac ati. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am unrhyw bosteri hysbysebu maen nhw wedi'u gweld, e.e. hysbysfyrddau, arwyddion bysiau, hysbysebion cylchgrawn neu bapurau newydd, ac ati. A oedd wedi gwneud iddyn nhw eisiau prynu? Ydyn nhw'n meddwl y dylai pobl gael eu perswadio i brynu rhywbeth? A yw'n well perswadio pobl i gefnogi elusen yn hytrach na'u hannog i brynu rhywbeth? |

**Arddangos**
Dewiswch arddangos y posteri terfynol yn y dosbarth, yn swyddfeydd yr elusen, neu mewn mannau cyhoeddus.

## Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd

Os yw'r dysgwyr yn mynegi barn gyferbyniol ar hysbysebu, gellid hwyluso dadl. Rhannwch y dysgwyr yn ddwy linell, o blaid ac yn erbyn, a chymryd eu tro i wneud datganiad yr un, yn ôl ac ymlaen ar hyd y llinellau. Anogwch, gydag adborth ar y pwyntiau a godwyd.